# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Hawthorn Dental / Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Dyddiad yr arolygiad: 19 Mawrth 2018

Dyddiad cyhoeddi: 20 Mehefin 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: hiw@gov.wales**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan: www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78937-015-7



© Hawlfraint y Goron 2018

## Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ............................................................ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ............................................................ 6

3. Yr hyn a ganfuom ............................................................ 8

   Ansawdd profiad y claf ............................................................ 9

   Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ...................... **Error! Bookmark not defined.**

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ............................................................ 20

4. Beth nesaf? ............................................................ 22

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ............................................................ 23

   Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ............ 24

   Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ............................................................ 25

   Atodiad C – Cynllun gwella ............................................................ 27

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chymesur**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Hawthorn Dental yn Lôn yr Ysgol, y Ddraenen Wen, Pontypridd, CF37 5AL, o fewn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, ar 19 Mawrth 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Safonau Iechyd a Gofal 2015, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod y practis hwn yn gweithio'n galed i ddarparu profiad o ansawdd uchel i'w gleifion. Roedd adborth a dderbyniwyd o holiaduron AGIC yn cadarnhau bod cleifion yn fodlon gyda'r gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn.

Canfuom fod y practis yn cael ei redeg gyda'r bwriad o fodloni'r safonau perthnasol er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion. Gwelsom dystiolaeth o bolisïau, gweithdrefnau a chontractau amrywiol ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd a chyfleusterau yn ddiogel ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda. Roedd hyfforddiant staff wedi ei drefnu drwy gydol 2018 er mwyn sicrhau bod gan bob aelod o staff y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i'w gynorthwyo gyda'i waith.

Gwnaethom argymell gwneud rhai gwelliannau yn y practis.  Roedd hyn yn cynnwys cofnodi siartio deintyddol sylfaenol llawn[1] a sgrinio am ganser y geg yn nodiadau'r cleifion, a diweddaru'r wybodaeth cwynion fel bod y broses i'w dilyn ar gyfer triniaeth y GIG a/neu driniaeth breifat yn gliriach i gleifion.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

[1] Dylid cofnodi siartio deintyddol llawn sy'n manylu ar ailosod dannedd, adferiadau cyfredol a'u defnydd, pydredd dannedd, symudedd, dannedd coll, a manylion am unrhyw brosthesis.

- Roedd gan y practis system ar waith ar gyfer casglu barn cleifion.
- Dywedodd y tîm staff wrthym eu bod yn hapus o fewn eu rolau a bod ganddynt ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel.
- Roedd gwelliannau i'r amgylched yn amlwg, gan gynnwys ystafell aros oedd newydd gael ei hailaddurno. Byddai cynlluniau i wella ardaloedd eraill o fewn y practis yn gwella'r cyfleusterau a phrofiad y cleifion ymhellach.
- Roedd adborth oddi wrth gleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC yn gadarnhaol iawn. Dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod yn cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen diweddaru'r wybodaeth am gwynion i nodi'r broses i'w dilyn ar gyfer triniaethau'r GIG a thriniaethau preifat yn glir ar gyfer cleifion.
- Dylid cynnwys cofnodion siartio deintyddol sylfaenol llawn a sgrinio am ganser y geg yn nodiadau'r cleifion.
- Mae angen gweithredu system adolygu gan gymheiriaid[2] ymhlith staff clinigol.

[2] Mae system adolygu gan gymheiriaid yn werthusiad o waith proffesiynol gan eraill o fewn yr un maes.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Hawthorn Dental yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn y Ddraenen Wen a'r ardal gyfagos.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys un deintydd, un nyrs ddeintyddol a dau dderbynnydd.

Mae’r practis yn darparu amrediad o wasanaethau deintyddol cyffredinol ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, canfuom fod y practis hwn yn gweithio'n galed i ddarparu profiad o ansawdd uchel ar gyfer ei gleifion. Gwelsom fod gwybodaeth berthnasol yn cael ei harddangos yn y dderbynfa a'r ardaloedd aros. Cadarnhaodd yr adborth a gawsom o holiaduron AGIC fod cleifion yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn.

Cefnogwyd y practis gan systemau oedd yn sicrhau bod unrhyw gwynion a sylwadau yn cael eu cadw yn gyson. Fodd bynnag, gwnaethom argymell bod y wybodaeth am gwynion yn cael ei diweddaru i ddiffinio'n glir y prosesau y dylid eu dilyn ar gyfer triniaethau'r GIG a thriniaethau preifat. Dylai manylion AGIC a sefydliadau eraill y mae modd i gleifion gysylltu â nhw os am wneud cwyn gael eu harddangos yn glir.

Cyn yr arolygiad, estynnwyd gwahoddiad i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a oedd yn cael eu darparu. Cwblhawyd cyfanswm o 13 holiadur. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> "Rydw i bob amser wedi cael fy nhrin â pharch. Mae'r staff bob amser yn gwrtais ac yn gyfeillgar. Rydw i bob amser yn hapus gyda'r gwasanaeth yr wyf yn ei dderbyn."
>
> *"Mae triniaeth yn y practis wedi gwella'n fawr yn ddiweddar, yn llawer mwy modern gyda gweithdrefnau diweddar."*
>
> *"Gwasanaeth prydlon iawn – hapus iawn gyda'r gwasanaeth oddi wrth y staff i gyd."*

### Cadw'n iach

Roedd gwybodaeth hybu iechyd ar gael yn y dderbynfa a'r ardaloedd aros, gan gynnwys taflenni gwybodaeth a phosteri am wahanol fathau o driniaethau a gwybodaeth ataliol. Gwnaethom nodi bod rhai posteri a oedd yn cynnwys gwybodaeth yn Saesneg ac yn Gymraeg.

Roedd rhestrau prisiau yn cael eu harddangos yn y dderbynfa ar gyfer costau am driniaethau'r GIG a thriniaethau preifat.

Roedd arwydd 'dim smygu' wedi'i arddangos yn y dderbynfa, a oedd yn cadarnhau bod pwyslais yn cael ei roi ar gydymffurfio â deddfwriaeth mangreoedd di-fwg.[3]

## Gofal ag urddas

Gwelsom dystiolaeth fod cleifion yn derbyn gofal gydag urddas a pharch. Er enghraifft, byddai staff yn defnyddio'r ystafell driniaeth er mwyn cynnal sgyrsiau gyda chleifion yn gyfrinachol, i ffwrdd o gleifion eraill, os oedd angen. Clywsom staff yn siarad â chleifion mewn modd cyfeillgar a phroffesiynol. Roedd adborth o'r cleifion a gwblhaodd ein holiaduron hefyd yn gadarnhaol iawn. Dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod yn cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym ei fod yn teimlo'n rhan o'r penderfyniadau a wneir ynghylch ei driniaeth i'r graddau yr oedd yn dymuno, a'i fod wedi derbyn gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael.

Er y dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod cost unrhyw driniaeth bob amser yn glir iddo cyn derbyn unrhyw driniaeth, dywedodd tri o'r cleifion a ymatebodd wrthym nad oeddent yn deall sut y cyfrifwyd cost eu triniaeth. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod gwybodaeth am brisiau ar gael i'w gweld yn y dderbynfa, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth am faint y gallai eu triniaeth ei chostio.

[3] Rheoliadau Mangreoedd etc. Difwg (Cymru) (Diwygio) 2015 – Cyflwynwyd deddfwriaeth i wahardd ysmygu mewn mannau cyhoeddus caeedig yn 2007 er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag mwg ail-law.

Canfuom hefyd dystiolaeth o gynllunio triniaethau o fewn sampl o gofnodion cleifion y gwnaethom edrych arnynt. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaeth.

Roedd gan y practis ei daflen wybodaeth ei hun ar gyfer cleifion i fynd â hi ac roedd hon yn cynnwys y gwasanaethau a ddarperir, manylion cyswllt a gwasanaethau deintyddol brys.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC wrthym eu bod yn gallu siarad â staff yn eu hiaith ddewisol bob amser. Nid oedd yr un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn ei ystyried ei hun yn siaradwr Cymraeg. Fodd bynnag, roedd staff yn gweithio yn y practis a oedd yn gallu siarad gyda chleifion yn Saesneg neu yn Gymraeg.

## Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu'n brydlon bob amser a gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd staff broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad.

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai problem ddeintyddol frys ganddynt.

Roedd rhif ffôn brys ar gyfer y gwasanaeth y tu allan i oriau ar gael pe byddai angen triniaeth ddeintyddol frys y tu allan i oriau ar gleifion. Roedd y rhif ffôn yn cael ei arddangos mewn ffenestr yn y practis. Roedd hefyd ar gael ar neges y peiriant ateb ac o fewn y llyfryn wybodaeth i gleifion.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roedd adborth oddi wrth gleifion a gwblhaodd holiaduron yn cadarnhau bod y tîm deintyddol wedi trafod gyda nhw am sut i gadw eu cegau a'u dannedd yn iach, a'u bod yn cymryd rhan cymaint ag yr oeddent yn dymuno mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed am eu triniaeth.

### Hawliau pobl

Gwnaethom nodi bod polisi cydraddoldeb penodol ar waith yn y practis. Golygai hyn fod y practis wedi ymrwymo i sicrhau bod pawb yn cael mynediad i'r un cyfleoedd ac i'r un driniaeth deg.

Roedd angen dringo un gris i gael mynediad i'r adeilad. Roedd ramp ar gael i gynorthwyo unrhyw un â phroblemau symudedd. Roedd yr ardaloedd a ddefnyddid gan y cleifion i gyd wedi'u lleoli ar un llawr, a golygai hyn fod cleifion yn gallu cael mynediad i'r adeilad yn ddiogel.

Roedd gan y practis doiled cyhoeddus ac roedd arwyddbost yn dangos ei leoliad. Roedd y cyfleusterau yn lân ac yn darparu adnoddau golchi a sychu dwylo. Nid oedd y cyfleuster toiled yn addas ar gyfer unrhyw un ag anawsterau symudedd.

## Gwrando a dysgu o adborth

Dywedodd naw allan o 13 claf a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn gwybod sut i fynegi pryder neu gwyno am y gwasanaethau roeddent yn eu derbyn yn y practis deintyddol. Roedd gan y practis weithdrefn gwyno ar waith ac roedd hon yn cael ei harddangos yn y dderbynfa. Roedd y weithdrefn yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â'r GIG (yn unol â phroses Gweithio i Wella'r GIG)[4] a chwynion preifat. Fodd bynnag, gwnaethom argymell bod y weithdrefn yn cael ei diweddaru er mwyn diffinio'n glir y broses y byddai angen i gleifion ei dilyn, yn ddibynnol ar p'un a oedd eu cwyn yn ymwneud â thriniaeth y GIG neu driniaeth breifat, gan nad oedd hyn wedi'i amlinellu'n glir.

Gwnaethom nodi bod gwefan AGIC wedi'i chynnwys yn y weithdrefn gwyno. Fodd bynnag, yn unol â'r rheoliadau, dylai manylion cyswllt llawn AGIC gael eu rhestru hefyd. Yn ogystal, byddai rhestr o sefydliadau eraill y gallai cleifion gysylltu â nhw petai ganddynt gŵyn yn darparu mwy o wybodaeth a chefnogaeth.

Roedd systemau wedi eu sefydlu i gofnodi, monitro ac ymateb i unrhyw gwynion a geid yn y practis. Nid oedd y practis wedi derbyn unrhyw gwynion neu bryderon ers i'r perchennog presennol gymryd awenau'r practis yn 2017.

---

[4] Gweithio i Wella yw'r broses ar gyfer rheoli pryderon yn GIG Cymru.

Roedd gan y practis system ar waith i gael adborth a safbwyntiau gan gleifion am y gwasanaethau a dderbyniwyd. Roedd ffurflenni adborth, pennau, a blwch i bostio atebion yn ddienw ynddo wedi'u lleoli yn yr ardal aros.

Yr hyn y mae angen ei wella Mae angen diweddaru'r weithdrefn gwyno er mwyn diffinio'n glir y broses y dylai cleifion ei dilyn ar gyfer triniaethau'r GIG a thriniaethau preifat. Mae angen cynnwys manylion cyswllt llawn AGIC o fewn y weithdrefn gwyno ar gyfer triniaeth breifat. Dylid rhestru sefydliadau eraill y gall helpu cleifion gyda'u cwynion o fewn y weithdrefn gwyno.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Canfuom fod y practis yn cael ei redeg gyda'r bwriad o fodloni'r safonau perthnasol er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion. Gwelsom dystiolaeth fod contractau amrywiol ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau yn ddiogel ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda. Gwnaethom argymell gwelliannau o ran cofnodi siartio deintyddol sylfaenol llawn a sgrinio am ganser y geg yn nodiadau'r cleifion.

### Gofal diogel

Ni nodwyd unrhyw faterion o sicrwydd ar unwaith yn ystod yr ymweliad arolygu hwn.

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, canfuom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a llesiant staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cynnal i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis.

Roedd contract ar waith ar gyfer symud a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gynhyrchir gan y practis mewn dull diogel. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n briodol. Roedd casgliadau gan y cyngor lleol ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff nad yw'n beryglus (cartref).

Roedd holl gyfleusterau'r practis wedi'u lleoli ar un llawr. Prynwyd y practis gan y deintydd presennol yn 2017 ac, yn gyffredinol, roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ar y tu mewn a'r tu allan. Roedd rhai ardaloedd wedi cael eu hadnewyddu a'u hailaddurno a dywedwyd wrthym am gynlluniau pellach i wella'r practis. Gwelwyd bod pob ardal yn lân ac yn daclus ac yn glir o beryglon baglu.

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol a dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur fod y practis, yn eu barn nhw, yn lân iawn.

Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn gwahanol leoliadau o amgylch y practis a gwelsom fod yr offer hwn wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf.

Roedd allanfeydd brys yn weladwy ac roedd y poster Iechyd a Diogelwch wedi ei arddangos yn y practis. Gwnaethom argymell ar adeg yr ymweliad y dylai'r manylion cyswllt gael eu cwblhau ar y poster.

## Atal a rheoli heintiau

Roedd y practis yn defnyddio ystafell driniaeth segur (Ystafell Driniaeth 2) fel ei ystafell ddadheintio. Ar adeg ein hymweliad, nid oedd penderfyniad wedi cael ei wneud o ran a fyddai'r ystafell driniaeth hon yn cael ei defnyddio gan staff ychwanegol yn y dyfodol. Os felly, byddai cael ystafell ddadheintio bwrpasol yn ddoeth yn unol â dogfen bolisi a chanllaw Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 (Diwygiad 1).5

Roedd yr ystafell a ddefnyddiwyd ar adeg ein hymweliad mewn cyflwr boddhaol. Roedd arwynebau gwaith a'r lloriau yn hawdd eu glanhau er mwyn hwyluso glanhau trwyadl a lleihau croes-heintio.

Roedd gan y practis ddefnydd o un awtoclaf[6] a dwy bowlen ar gyfer glanhau â llaw. Gwelsom ardystiad arolygiad i ddangos bod yr awtoclaf yn ddiogel i'w ddefnyddio, a gwelsom fod gwiriadau a phrofion yn cael eu cynnal bob dydd a bod llyfrau cofnodion yn cael eu cadw, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 ar gyfer offer sterileiddio. Roedd hyn yn dangos eu bod yn parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio.

Mae gan yr ystafell (sy'n cael ei defnyddio fel yr ardal ddadheintio) sinc golchi dwylo penodol a dangosodd staff y broses ddadheintio a ddefnyddid ganddynt inni. Gwelsom fod bocsys wedi'u selio yn cael eu defnyddio i gludo eitemau brwnt a glân rhwng yr ystafelloedd triniaeth. Roedd gan y bocs a ddefnyddid i

---

[5] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

[6] Siambr pwysedd yw peiriant awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau trwy orfodi ager dirlawn pwysedd uchel arnynt.

gludo eitemau brwnt label wedi pylu a gofynnom i hyn gael ei atgyweirio, er mwyn sicrhau na fyddai'r bocsys yn cael eu cymysgu. Roedd offer glân yn cael eu storio mewn bagiau wedi'u selio er mwyn atal croes-heintio.

Yn dilyn yr arolygiad, rydym wedi derbyn tystiolaeth ffotograffig sy'n dangos bod bocsys lliw yn cael eu defnyddio bellach i gludo offer brwnt.

Canfuom fod y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau i nodi meysydd i'w gwella a'u datblygu fel rhan o'i weithgaredd monitro cyffredinol i sicrhau ansawdd. Fodd bynnag, nid oedd dyddiad i'w weld ar yr archwiliad ac rydym yn argymell y dylai dyddiadau gael eu hychwanegu er mwyn dangos y wybodaeth ddiweddaraf.

### Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith i ymdrin ag argyfyngau cleifion ac roedd cyfarpar dadebru ar gael i'w ddefnyddio. Gwelsom gadarnhad fod hyfforddiant wedi cael ei drefnu ar gyfer staff ym mis Tachwedd 2018 ar sut i ymateb i argyfyngau meddygol a sut i berfformio adfywio cardio-pwlmonaidd. Roedd polisi gweithdrefnau argyfwng ar waith. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am rolau a chyfrifoldebau staff mewn argyfwng.

Nid oeddem yn gallu cadarnhau bod gan y practis unigolyn oedd wedi ei hyfforddi i ddelio â threfniadau cymorth cyntaf o fewn y practis. Gwnaethom argymell felly fod y practis yn ystyried canllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch[7] ar benodi a hyfforddi swyddogion cymorth cyntaf yn y gwaith. Cytunodd y practis i ystyried gwneud hyn. Yn dilyn yr ymweliad, derbyniwyd cadarnhad gan y practis i gadarnhau bod hyfforddiant cymorth cyntaf wedi cael ei drefnu.

Gwelwyd bod cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng a gedwid yn y practis yn cael eu storio mewn ystafell nad oedd yn cael ei chloi na'i chau ac felly roedd yn hygyrch i unrhyw un oedd yn ymweld â'r practis. Gwnaethom argymell bod y trefniadau ar gyfer storio cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn aros yn ddiogel ond yn hygyrch i staff yn unig. Yn

[7] http://www.hse.gov.uk/pubns/indg214.pdf

dilyn yr ymweliad, cyflwynwyd tystiolaeth ffotograffig i ddangos newid yn y trefniadau ar gyfer storio cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng.

Roedd gan y practis system i ddangos bod gwiriadau'n cael eu cynnal i wirio a newid cyffuriau a chwistrelli yr oedd eu dyddiadau wedi dod i ben, yn unol â'r safonau a amlinellir gan Gyngor Dadebru'r DU.[8]

Roedd llyfr damweiniau ar waith i gofnodi gwybodaeth am ddamweiniau fel rhan o'r gwaith o reoli materion iechyd a diogelwch.

## Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Roedd polisïau diogelu ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed ar waith. Fodd bynnag, gwnaethom argymell bod y polisïau yn cael eu diweddaru er mwyn cynnwys manylion y tîm diogelu lleol ac y dylid ystyried cynnwys siart lif a fyddai'n rhoi cymorth i staff am y camau gofynnol pe bai mater diogelu yn cael ei nodi.

Gwelsom fod trefniadau i bob aelod o'r staff gwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn oedolion a phlant ym mis Mehefin a mis Medi 2018.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo y gallent leisio unrhyw bryderon oedd ganddynt oedd yn gysylltiedig â'r gwaith, a'u bod yn hyderus y byddai'r rhain yn derbyn sylw.

Dywedodd staff wrthym am y gwiriadau cyn-gyflogaeth fyddai'n cael eu cwblhau ar gyfer unrhyw aelodau o staff newydd cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd gan bob aelod o staff dystysgrif newydd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd[9] neu roedd yn aros i'w derbyn.

---

[8] Mae Cyngor Dadebru'r DU yn bodoli i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu.

[9] Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant. Mae wedi disodli'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom yr ystafell driniaeth o fewn y practis, gan nodi ei bod yn lân ac yn daclus. Roedd y lloriau a'r arwynebau yn yr ystafell driniaeth yn hawdd eu glanhau er mwyn lleihau croes-heintio. Canfuom fod yr offerynnau deintyddol yn yr ystafell driniaeth mewn cyflwr da ac roedd digon ohonynt. Fodd bynnag, nid oedd dyfais ail-weinio nodwyddau ar gael a dylid ystyried cyflwyno dyfais o'r fath i leihau anafiadau gan nodwyddau.[10] Yn dilyn yr arolygiad, cyflwynwyd tystiolaeth ffotograffig oedd yn dangos bod dyfais ailweinio nodwyddau wedi ei chael ar gyfer ei defnyddio yn yr ystafell driniaeth.

Daethom i'r casgliad fod gan y practis drefniadau ar waith i ddefnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Mae hyn am fod y dogfennau a'r wybodaeth ofynnol ynglŷn â defnyddio'r offer pelydr-X yn ddiogel ar gael ac yn gyfredol.

Gwelsom dystysgrifau hyfforddiant a oedd yn dangos bod gan y deintydd hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio cyfredol a'i fod yn cwrdd â chanllawiau a osodwyd allan gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Gwelsom fod archwiliadau o ansawdd delweddau pelydr-X wedi cael eu cwblhau'n rheolaidd fel rhan o'r gwaith monitro ar gyfer sicrhau ansawdd. Mae'r archwiliadau hyn yn nodi problemau posibl wrth gynnal sganiau pelydr-X, ac yn dangos lle y dylid gwneud gwelliannau os oes angen.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yn amlwg fod y practis yn ceisio gwella'n barhaus y gwasanaeth a ddarperir. Roeddem yn gallu gweld bod archwiliadau wedi cael eu cwblhau a/neu eu trefnu gan y practis.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

[10] Mae anaf gan nodwydd yn digwydd pan fo'r croen yn cael ei bigo'n ddamweiniol gan nodwydd sydd wedi cael ei defnyddio. Mae clefydau a gludir yn y gwaed a allai gael eu trosglwyddo gan anaf o'r fath yn cynnwys Feirws Imiwnoddiffygiant Dynol (HIV), hepatitis B (HBV) a hepatitis C (HCV).

O drafodaethau â staff, cawsom wybod nad oedd system adolygu gan gymheiriaid ffurfiol ar waith. Mae system adolygu gan gymheiriaid yn werthusiad o waith proffesiynol gan eraill o fewn yr un maes. Mae'r dull hwn yn helpu i gynnal safonau a gwella perfformiad lle bo hynny'n berthnasol. Gwnaethom argymell bod system adolygu gan gymheiriaid yn cael ei gweithredu i gyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir i gleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen gweithredu system i werthuso gwaith clinigol, proffesiynol (adolygu gan gymheiriaid) i gynorthwyo wrth gynnal a gwella safonau gofal i gleifion.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Er enghraifft, roedd copi wrth gefn o bob ffeil electronig yn cael ei wneud yn rheolaidd ac roedd mynediad at sgriniau cyfrifiadur yn ddiogel ac yn breifat. Roedd cofnodion papur yn cael eu cadw mewn cypyrddau ffeilio yn y dderbynfa. Roedd polisi diogelu data ar waith.

### Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o bump o gofnodion cleifion y practis. Ar y cyfan, canfuom fod y cofnodion yn briodol ac yn ddigon manwl gyda gwybodaeth ynghylch triniaeth pob claf. Fodd bynnag, gwnaethom ganfod rhai problemau a oedd angen sylw, gan gynnwys:

- O'r cofnodion a adolygwyd gennym, nid oedd gan yr un ohonynt dystiolaeth o siartio deintyddol sylfaenol llawn. Mae angen dogfennu hyn yn nodiadau'r cleifion.
- Mae angen dogfennu sgrinio am ganser y geg yn eglur yn nodiadau'r cleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen gwella cofnodion cleifion, yn benodol i ddangos bod siartio deintyddol sylfaenol llawn a sgrinio am ganser y geg wedi digwydd a'u bod yn cael eu dogfennu.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Gwelsom dystiolaeth fod systemau a phrosesau ar waith a oedd yn sicrhau bod y practis a'r staff yn cael eu cefnogi a'u bod yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel.

Gwelsom fod ystod o bolisïau a gweithdrefnau wedi eu sefydlu, oedd â'r nod o sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Roedd gan y polisïau a gweithdrefnau ddyddiadau cyhoeddi ac adolygu a thystiolaeth fod staff wedi darllen a deall eu cyfrifoldebau.

Dywedodd staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a gwelsom fod hyfforddiant wedi cael ei drefnu trwy gydol 2018 a fyddai'n sicrhau bod gan staff sgiliau a gwybodaeth gyfredol i'w cynorthwyo gyda'u gwaith.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae perchennog presennol Hawthorn Dental wedi bod yn darparu gwasanaethau yn yr adeilad presennol ers 2017.

Canfuom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Dywedodd y staff i gyd wrthym eu bod yn gweithio'n dda gyda'i gilydd a dangoswyd hyn gan eu perthynas a'u rhyngweithio gyda'r cleifion. Roedd staff yn ymwybodol o'r polisi chwythu'r chwiban a dywedasant wrthym eu bod yn gallu codi unrhyw faterion neu bryderon am ddarparu gofal i gleifion yn hyderus gyda'r deintydd yn uniongyrchol neu gorff priodol pe bai angen.

Roedd y staff i gyd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel ar gyfer eu cleifion a chefnogwyd hyn gan ystod o bolisïau a gweithdrefnau. Gwelsom dystiolaeth oedd yn dangos bod staff wedi llofnodi'r polisïau a gweithdrefnau i

gadarnhau eu bod wedi eu darllen ac yn deall eu cyfrifoldebau. Roedd gan yr holl bolisïau a gweithdrefnau ddyddiad cyhoeddi ac adolygu. Roedd hyn yn sicrhau bod polisïau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn cadarnhau bod arferion yn gyfoes.

## Staff ac adnoddau

### Gweithlu

Roedd tystiolaeth o raglen ymsefydlu ar gyfer aelodau newydd o staff. Gwelsom fod pob aelod o staff wedi cael mynediad i amrywiaeth o hyfforddiant, a chedwid tystysgrifau yn ffeiliau'r staff. Gwelsom dystiolaeth fod hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer mis Mehefin a mis Medi 2018 ar gyfer rhai meysydd nad oeddent wedi'u cwblhau eto. Bydd hyn yn sicrhau bod gan staff sgiliau a gwybodaeth gyfredol a bydd yn cadarnhau eu bod yn cyflawni gofynion eu datblygiad proffesiynol parhaus.

Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwnedd hepatitis B pob aelod o'r staff clinigol sy'n gweithio yn y practis. Golygai hyn fod mesurau priodol ar waith i sicrhau bod cleifion a staff yn cael eu hamddiffyn rhag y firws hwn a gludir yn y gwaed.

Am nad oedd tîm y practis wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd am flwyddyn lawn eto, nid oedd arfarniadau wedi cael eu cynnal ar adeg ein hymweliad. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym y byddai proses arfarnu yn cael ei chynnal ar gyfer yr holl staff yn y dyfodol agos.

Roedd tystiolaeth o gyfarfodydd staff ffurfiol bob mis a oedd wedi'u cofnodi, ac roedd y cofnodion hyn yn cael eu llofnodi gan staff i ddangos eu bod yn gofnod cywir o'r trafodaethau a gynhelid yn y cyfarfodydd. Yn ogystal, gan fod y tîm staff yn fach, roedd trafodaethau dyddiol yn cael eu cynnal ac roedd staff yn fodlon eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion yn ymwneud â'r practis.

Roedd pob aelod o staff, lle bo hynny'n berthnasol, wedi ei gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd tystysgrif AGIC y deintydd yn cael ei harddangos fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a gwelsom gadarnhad o yswiriant indemniad.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae’r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a uwchgyfeiriwyd ac a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau’n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf 12 wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## **Atodiad A** – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofaI a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Hawthorn Dental

## Dyddiad yr arolygiad:19 Mawrth 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw faterion lle'r oedd angen sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

### Enw (llythrennau bras):

### Swydd:

**Dyddiad:**

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Hawthorn Dental

## Dyddiad yr arolygiad:19 Mawrth 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Mae angen diweddaru'r weithdrefn gwyno er mwyn diffinio'n glir y broses y dylai cleifion ei dilyn ar gyfer triniaethau'r GIG a thriniaethau preifat. | Safonau Iechyd a Gofal 4.2<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 21 (1); (4) (b) | Mae'r weithdrefn wedi'i diweddaru i ddangos y llwybrau ar gyfer cwynion y GIG a chwynion preifat yn eglur. | GP | Cwblhawyd |
| Mae angen cynnwys manylion cyswllt llawn AGIC o fewn y weithdrefn gwyno ar gyfer triniaeth breifat. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) | Mae manylion cyswllt llawn AGIC yn cael eu harddangos bellach. | GP | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | 2017, Rheoliad 21 (4) (a) | | | |
| Dylid rhestru sefydliadau eraill y gall helpu cleifion gyda'u cwynion o fewn y weithdrefn gwyno. | Safonau Iechyd a Gofal 4.2<br><br>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 5 | Mae pob sefydliad a all roi cymorth i glaf gyda chŵyn sy'n ymwneud â'r GIG a/neu gŵyn breifat bellach wedi'i restru. | GP | Cwblhawyd |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Mae angen gweithredu system i werthuso gwaith clinigol, proffesiynol (adolygu gan gymheiriaid) i gynorthwyo wrth gynnal a gwella safonau gofal i gleifion. | Safonau Iechyd a Gofal 3.3 | Wrthi'n gwneud trefniadau am hyn gydag ymarferwyr lleol. | GP | Awst 2018 |
| Mae angen gwella cofnodion cleifion, yn benodol i ddangos bod siartio deintyddol sylfaenol llawn a sgrinio am ganser y geg wedi digwydd a'u bod yn cael eu dogfennu. | Safonau Iechyd a Gofal 3.5<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth | Mae siartio sylfaenol llawn yn cael ei gynnal yn rheolaidd erbyn hyn. Mae hanes cymdeithasol a'r risg ddilynol o ganser y geg yn cael eu dogfennu bellach (tra oedd trafodaeth ar lafar cyn hyn gyda'r claf a dim ond canfyddiadau | GP | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Breifat Cymru 2017, Rheoliad 20 (1) (a) (i) (ii)<br><br>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4.1 | meinwe meddal yn cael eu cofnodi). | | |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Ni nodwyd unrhyw argymhellion ar gyfer gwella'r gwasanaeth. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

## Enw (llythrennau bras):Gafyn Rhys Poulton

## Swydd: Prif Ddeintydd / Perchennog y Practis

## Dyddiad:26 Ebrill 2018